

Tasg 1

(Heriol, eitem 2)

Mae **gwrth-** yn cael ei ddefnyddio mewn dau air yn y darn hwn: gwrthfotigau a gwrthsefyll. 'Yn erbyn' yw ei ystyr. Wrth roi 'gwrth-' o flaen gair arall, mae'n achosi **treigladau meddal**. Llenwch y tabl hwn â geiriau sy'n dechrau gyda 'gwrth-' gan ddefnyddio'r cliwiau. Mae un enghraifft wedi'i rhoi i chi.

Cliw	Gair 'gwrth-'
1. profi i'r gwrthwyneb; dangos bod dadl yn anghywir.	gwrthbrofi
2. bod yn erbyn rhywbeth, <i>to oppose</i>	
3. taro yn erbyn rhywbeth	
4. protest yn erbyn rhywbeth; mae 'tyst' (wedi'i dreiglo) yn rhan o'r gair	
5. y blaid nad yw mewn grym yn y senedd	
6. codi yn erbyn awdurdod; mae 'rhyfel' (wedi'i dreiglo) yn rhan o'r gair.	
7. ymosod yn erbyn e.e. tîm rygbi/pêl-droed	
8. dweud yn erbyn rhywun; <i>to contradict</i>	

Atebion:

2. gwrthwynebu; 3. gwrthdaro; 4. gwrthdystiad; 5. gwrthblaid; 6. gwrthryfela; 7. gwrthymosod; 8. gwrth-ddweud.